



PRIFYSGOL  
**ABERYSTWYTH**  
UNIVERSITY



# Croeso i Gyfres Ddarlithoedd Busnes Safon Uwch Ysgol Fusnes Aberystwyth




THE SUNDAY TIMES  
CANLLAW  
PRIFYSGOLION  
DA  
2019

PRIFYSGOL  
Y FLWYDDYN AR  
GYFER ANSAWDD  
Y DYSGU

THE SUNDAY TIMES  
GOOD  
UNIVERSITY  
GUIDE  
2019

UNIVERSITY  
OF THE YEAR  
FOR TEACHING  
QUALITY




# Cyflwyniad i Roi Gwaith Allan

Yr Athro Andrew Thomas  
Ysgol Fusnes Aberystwyth




## Amcanion

- Cyflwyno i Roi Gwaith Allan
- Cyflwyno amrywiol ddiffiniadau costau a dangos sut maen nhw'n cael eu defnyddio mewn strategaethau rhoi gwaith allan.
- Dangos sut mae dadansoddi adennill costau yn cael ei ddefnyddio yng nghyd-destun rhoi gwaith allan er mwyn gwneud penderfyniadau am roi gwaith allan.
- Ystyried y materion anariannol sy'n gysylltiedig â strategaethau rhoi gwaith allan



**Mae Strategaeth Rhoi Gwaith Allan** yn broses o wneud penderfyniadau strategol wrth i gwmni ystyried pryd mae'n fwy priodol i wneud cynnyrch (neu wasanaeth) o fewn y cwmni (yn fewnol) neu, a yw'n well i gwmni arall wneud y cynnyrch (neu'r gwasanaeth) drostynt.



← Llif cynnyrch/gwasanaethau  
→ Llif Gwybodaeth

# Cadwyni Gwerth Busnes

## Penderfyniadau Strategol



Ble i wneud?  
Cystadleuwyr?  
Prynu gan bwy?  
Gwerthu i bwy?  
Beth os bydd rhywbeth yn mynd o'i le?

Cadwyn Alw

## Datblygu Busnes



Brandio  
Llais y cwsmer  
Cwsmer o ddewis





## Rhoi Gwaith Allan

- Bydd y strategaeth ar gyfer rhoi gwaith allan yn diffinio system y gadwyn gyflenwi a'r ffurfweddiad.
- Gellir dod i benderfyniad:
  - Yn ariannol
  - Yn ansoddol
  - Ar sail cymysgedd o ddadansoddi ariannol ac ansoddol
- Gall rhoi gwaith allan ddibynnu ar leoliad y cynnyrch yng nghylch bywyd y cynnyrch



# Cylch Bywyd Cynnyrch



## Rhoi gwaith allan a PLC

- **Cyflwyniad** – gall y risg o roi gwaith allan fod yn uchel os nad yw'r cynnyrch yn llwyddo.
  - **Twf** – mae'r risg yn lleihau wrth i'r niferoedd gynyddu
  - **Aeddfedrwydd** – Risg isel
  - **Gostyngiad** – beth i'w wneud ar gyfer y cynnyrch nesaf a sut mae terfynu'r trefniant presennol?
- 
- Pryd i newid i roi gwaith allan?
  - Weithiau ni fydd dewis gennych






# Dadansoddiad Adennill Costau

- Dadansoddiad Adennill Costau

Y niferoedd lle mae'r refeniwiau yn cyfateb i gyfanswm y costau neu mae'r costau sy'n gysylltiedig â dwy broses amgen yr un peth.






# Break-Even Dadansoddiad

## Adennill Costaun Analysis

- **Defnyddir dadansoddiad adennill costau** er mwyn cymharu prosesau trwy ganfod y niferoedd lle bydd cyfanswm costau'r ddwy wahanol broses yn gyfartal.
- **Y pwynt adennill costau** yw'r niferoedd y mae cyfanswm y refeniwiau yn cyfateb i gyfanswm y costau.
- **Costau newidiol [Variable costs (vc)]** yw'r costau sy'n amrywio'n uniongyrchol oherwydd niferoedd yr allbwn.
- **Costau sefydlog [Fixed costs (Fc)]** yw'r costau sy'n aros yn gyson er bod newidiadau yn lefel yr allbwn.




## Gall Dadansoddiad Adennill Costau ddweud wrthyhych...

- A yw'r niferoedd a ragwelir yn ddigon i adennill costau (pwynt gwneud neu brynu)
- Pa mor isel mae'n rhaid i'r gost newidiol fesul uned fod er mwyn adennill costau o ystyried prisiau cyfredol a'r rhagolwg gwerthiant.
- Pa mor isel mae'n rhaid i'r gost sefydlog fod er mwyn adennill costau.
- Sut mae lefelau prisiau yn effeithio ar y niferoedd ar gyfer adennill costau.




## Mathau o Gostau

- Costau Sefydlog
- Costau Newidiol



## Diffinio'r Costau

- **Costau Sefydlog**
  - Treuliau megis rhent sy'n aros yn gyson dros ystod eang o allbynnau.
- **Costau Newidiol**
  - Treuliau megis defnyddiau a llafur uniongyrchol sy'n amrywio'n gyfatebol â newidiadau i'r allbwn.



## Diffinio'r Costau (parhad)

- **Cost Cyfalaf**


- Fe'i mynegir fel cyfradd ganrannol fel rheol, ac mae'n adlewyrchu cost yr arian sy'n cael ei fuddsoddi mewn prosiect.

- Cymariaethau:


- Cost benthycu arian i ariannu'r prosiect.
- Llog a gollwyd ar fenthyciadau tymor byr.
- Cost cyfle blaenori sawl prosiect arall sydd angen eu hariannu.



# Elfennau Cost Sefydlog ac Amrywiol




# Perthnasoedd Cost-Niferoedd






## Dadansoddiad Adennill Costau: Costau Gwneud neu Brynu




## Dadansoddiad Adennill Costau (parhad)

- Cost Gwneud neu Brynu (Tybiaethau)
  - Mae'r pris gwerthu fesul uned yn gyson.
  - Mae'r costau newidiol fesul uned yn aros yn gyson.
  - Mae'r costau sefydlog yn aros yn gyson.




## Dadansoddiad Adennill Costau (parhad)

- Dewis o Brosesau
  - Defnyddir ar gyfer dewis rhwng y prosesau amgen y gall cwmni eu defnyddio.
  - Caiff y pwynt adennill costau ei ddiffinio yn ôl y niferoedd lle nad oes gwahaniaeth o ran costau'r prosesau amgen.



# Dadansoddiad Adennill Costau: Dewis o Brosesau




## Mathau o Benderfyniadau Economaidd

- Prynu offer neu gyfleusterau newydd
- Amnewid cyfleusterau neu offer presennol
- **Penderfyniadau gwneud-neu-brynu**
- Penderfyniadau prydlesu-neu-brynu
- Penderfyniadau cau dros dro neu gefnu ar y cyfarpar
- Ychwanegu neu ddileu cynnyrch neu ystod o gynnyrch

# Tybiaethau Dadansoddiad Cost-Niferoedd


1. Un cynnyrch sydd
2. Gall pob dim sy'n cael ei gynhyrchu gael ei werthu
3. Yr un yw'r gost newidiol fesul uned beth bynnag yw'r niferoedd
4. Nid yw'r costau sefydlog yn newid gyda'r niferoedd
5. Mae'r refeniw fesul uned yn gyson â'r niferoedd
6. Mae'r refeniw fesul uned yn fwy na'r gost amrywiol fesul uned



## Cost-Volume Analysis

- FC – Fixed cost
- VC – Total variable cost
- $v$  – Variable cost per unit
- TC – Total cost
- TR – Total revenue
- R – Revenue per unit
- Q – Quantity or volume of output
- $Q_{BEP}$  – Break-even quantity
- P – Profit
- CM – Contribution Margin

- $TC = FC + VC$
- $VC = Q \times v$
- $TR = R \times Q$
- $P = TR - TC$   
 $= R \times Q - (FC + v \times Q)$   
 $= Q(R - v) - FC$
- $CM = R - v$
- $Q = P + FC / R - v$
- $Q_{BEP} = FC / R - v$



## Enghraifft Gwneud neu Brynu

Mae cwmni yn ystyried prynu cynnyrch newydd gan gyflenwr am £200 yr uned.

Er mwyn ei gynhyrchu'n 'fewnol', y gost sefydlog fesul blwyddyn fyddai £100,000, a chyfanswm y costau newidiol fyddai £100 y rhan.

Beth fyddai'r pwynt adennill costau o ran niferoedd a chost ar gyfer y penderfyniad gwneud neu brynu?


$$Q = FC / (R - v) = 100,000 / (200-100) = 1,000 \text{ cynnyrch}$$







# Enghraifft Gwneud neu Brynu



Maint (cleifion) (Q)	Cyfanswm Costau Blynyddol (£) (100,000 + 100Q)	Cyfanswm Refeniw (£) (200Q)
0	100,000	0
2000	300,000	400,000









Maint (cleifion) (Q)	Cyfanswm Costau Blynyddol (£) (100,000 + 100Q)	Cyfanswm Refeniw (£) (200Q)
0	100,000	0
2000	300,000	400,000





Maint (cleifion) (Q)	Cyfanswm Costau Blynyddol (£) (100,000 + 100Q)	Cyfanswm Refeniw (£) (200Q)
0	100,000	0
2000	300,000	400,000




## Ymarfer Gwneud neu Brynu

Mae cwmni yn ystyried prynu cynnyrch newydd gan gyflenwr am £350 yr uned.

Er mwyn ei gynhyrchu'n 'fewnol', y gost sefydlog fesul blwyddyn fyddai £130,000, a chyfanswm y costau newidiol fyddai £80 y rhan.

Beth fyddai'r pwynt adennill costau o ran niferoedd a chost ar gyfer y penderfyniad gwneud neu brynu?



# Amser i wneud Ymarfer 1

**(Bydd yr ateb yn cael ei ddangos yn hwyrach  
yn y sioe sleidiau yma, felly peidiwch â mynd  
yn eich blaen tan ichi roi cynnig ar yr  
ymarfer)**



## Enghraifft Gwneud neu Brynu



$$Q = FC / (R - v)$$

$$= 130,000 / (350-80)$$


$$= 482 \text{ cynnyrch}$$

$$482 \text{ cynnyrch} \times \text{£}350 = \text{£}168560$$



## Amser i wneud Ymarfer 2

**(Bydd yr ateb yn cael ei ddangos yn hwyrach  
yn y sioe sleidiau yma, felly peidiwch â mynd  
yn eich blaen tan ichi roi cynnig ar yr  
ymarfer)**






# Penderfynu Gwneud neu Brynu

## Gwneud yn Fewnol

- Ystyriaethau o ran cost (llai drud i wneud y rhan)
- Defnydd cynhyrchiol o'r cyfarpar dros ben er mwyn helpu i amsugno'r gorbenion sefydlog (trwy ddefnyddio'r capasiti segur)
- Rhaid sicrhau rheolaeth uniongyrchol dros gynhyrchu a/neu ansawdd
- Rheolaeth ansawdd well
- Rhaid sicrhau cyfrinachedd y cynllun er mwyn amddiffyn technoleg berchenogol
- Cyflenwyr annibynadwy
- Dim cyflenwyr cymwys ar gael
- Dymuniad i gynnal gweithlu sefydlog (yn ystod cyfnodau o werthiant gostyngol)
- Niferoedd yn rhy fach i ennyn diddordeb cyflenwyr
- Rheolaeth dros yr amser arwain, cludiant a chostau storio mewn warws
- Gwell sicrwydd o gyflenwi parhaus
- Darparu ail ffynhonnell
- Rhesymau gwleidyddol, cymdeithasol neu amgylcheddol



# Penderfyniadau Gwneud neu Brynu

## Prynu'r Rhan

- Diffyg arbenigedd
- Mae ymchwil y cyflenwyr a'u gwybodaeth ymarferol arbenigol yn rhagori ar y prynwr
- Ystyriaethau o ran cost (llai drud i brynu'r eitem)
- Gofynion niferoedd bychain
- Cyfleusterau cynhyrchu cyfyngedig neu gapasiti annigonol
- Dymuniad i gynnal polisi ffynonellau lluosog
- Ystyriaethau rheoli rheolwyr anuniongyrchol
- Ystyriaethau caffael a rhestru
- Dewisiad brand
- Eitem nad yw'n hanfodol i strategaeth y cwmni

# Penderfyniadau Gwneud neu Brynu

## Prif Elfennau Penderfyniad 'Gwneud'

- Costau rhestru cynyddrannol
- Costau llafur uniongyrchol
- Costau gorbenion ffatri cynyddrannol
- Costau defnyddiau a brynwyd ac sydd wedi'u cyflenwi
- Costau rheoli cynyddrannol
- Unrhyw gostau dilynol sy'n deillio o ansawdd a phroblemau cysylltiedig
- Costau prynu cynyddrannol
- Costau cyfalaf cynyddrannol




# Penderfyniadau Gwneud neu Brynu

## Prif Elfennau Penderfyniad 'Prynu'

- Pris prynu'r rhan
- Costau cludiant
- Costau derbyn ac archwilio
- Costau prynu cynyddraddol
- Unrhyw gostau dilynol sy'n gysylltiedig ag ansawdd neu wasanaeth



Diolch am wyllo, nawr rhwch  
gynnig ar y cwestiynau  
amlddewis.



Os oes gennych gwestiynau, cysylltwch â  
mi drwy [ant42@aber.ac.uk](mailto:ant42@aber.ac.uk)





PRIFYSGOL  
**ABERYSTWYTH**  
UNIVERSITY

**Diolch** |



THE  TIMES  
THE SUNDAY TIMES  
**CANLLAW  
PRIFYSGOLION  
DA  
2019**

PRIFYSGOL  
Y FLWYDDYN AR  
CYFER ANSAWDD  
Y DYSGU

THE  TIMES  
THE SUNDAY TIMES  
**GOOD  
UNIVERSITY  
GUIDE  
2019**

UNIVERSITY  
OF THE YEAR  
FOR TEACHING  
QUALITY